| | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Cabinet |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 25 Medi 2012 |
| **Prif Swyddog/Aelod:** | Cynghorydd Julian Thompson-Hill |
| **Ysgrifennydd yr Adroddiad:** | Pennaeth Cyllid ac Asesadau |
| **Teitl:** | Adroddiad Rheolaeth y Trysorlys 2011/12 (Atodiad 1) |

**1 Beth mae'r adroddiad yn sôn amdano?**

1.1 Mae'r adroddiad yn sôn am fuddsoddiad y Cyngor a'r gweithgarwch benthyca yn ystod 2011/12. Mae hefyd yn darparu manylion yr hinsawdd economaidd yr adeg honno ac yn dangos sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â dangosyddion Prudential.

**2 Beth yw pwrpas llunio yr adroddiad hwn?**

2.1 Prif bwrpas yr adroddiad yw diweddaru'r aelodau ar berfformiad rheoli'r drysorlyse, ac arddangos y cydsyniad rhwng cyfyngau'r trysorlys a dangosyddion Prudential yn ystod 2011/12.

**3 Beth yw'r Argymhellion?**

3.1 Gofynnwyd i'r Cabinet nodi Adroddiad Blynyddol y Rheolaeth y Trysorlys ar gyfer 2011/12.

**4 Manylion yr Adroddiad**

4.1 Mae'r adroddiad yn rhoi manylion ar weithgareddau'r Cyngor ar reoli'r Trysorlys a hefyd amlinelliad o gefndir economaidd y flwyddyn. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi'r goblygiadau risg o wneud penderfyniadau yn y trysorlys ac yn cadarnhau'r cydsyniad am gyfyngiadau'r trysorlys a dangosyddion Prudential.

**5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu tuag at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Gmae buddsoddiad da a phenderfyniadau benthyca yn golygu gall ffynonellau eraill gael eu hanelu at wasanaethau eraill y Cyngor.

**6 Beth fydd y gost a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Nid yw'n berthnasol.

**7 Pa ymgynghoriadau a wnaed?**

7.1 Mae’r Cyngor wedi ymgynghori gyda’i ymgynghorywr trysorlysn, Arlingclose Cyf.

**Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

7.2 Mae Rheolaeth y Trysorlys yn golygu edrych ar ôl symiau mawr o arian parod, felly mae’n agwedd bwysig o waith y Cyngor. Mae’n gofyn am strategaeth gadarn a rheolaeth addas i ddiogelu arian y Cyngor. Bydd hyn yn sicrhau bod buddsoddiadau teg yn cael eu gwneud a bod dyledion yn cael eu rheolu yn effeithiol a chall.

7.3 Mae’n ofynnol bod y Cod Ymddygiad ar Reolaeth y Trysorlys (CIPFA ) ar gyfer y Cyngor yn paratoi ar gyfer adroddiad blynyddol ar weithgarwch y trysorlys dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Mae angen i’r Cabinet nodi perfformiad Rheolaeth Trysorlys y Cyngor yn ystod 2011/12, a nodi’r cydsyniad gyda’r dangosyddion Prudential fel a adroddwyd yn Adroddiad blynyddol TM 2011/12.

## 8 Pa risgiau sydd a beth gallwn ei wneud i’w lleihau?

8.1 Mae Rheolaeth Trysorlys yn ei hanfod yn llawn risgiau, ond mae’r Cyngor yn monitro a rheoli’r risgiau hyn a amlinellwy yn y prif adroddiad. Fodd bynnag, mae’n amhosib i waredu y risgiau yn gyfan gwbl. Mae strategaeth a chynlluniau y Cyngor ar reolaeth y trysorlys yn cael eu harchwilio yn flynyddol. Roedd yr archwiliad mewnol diweddaraf yn gadarnhaol ac ni godwyd unrhyw faterion.

## 9 Yr hawl i wneud penderfyniadau

9.1 Mae’r Awdurdodau Lleol (Cyllid a Chyfrifion) (Cymru) yn gofyn am reolau’r awdurdodau lleol o fewn Siarter Sefydliad Cyllid Cyhoeddus a Chod Ymarfer y Cyfrifion ar Reolaeth y Trysorlys. Bydd hyn yn pennu ar anghenion y Cabinet i dderbyn adroddiad blynyddol ar weithgareddau’r trysorlys yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.